

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Number: 28/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil i'r Cyfnod Profi wed'i i Ehangu ar gyfer CDU Adroddiad cryno

Ymchwil i'r Cyfnod Profi wedi'i Ehangu ar gyfer CDU

Adroddiad cryno

Dr Duncan Holtom a Dr Sarah Lloyd-Jones

Safbwyntiau'r ymchwilydd sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Joanne Starkey

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 826734

E-bost: joanne.starkey@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

978-1-4734-1131-9

© Hawlfraint y Goron 2014

Cynnwys

Talfyriadau ac Acronymau	4
1. Cyflwyniad	5
2. Dull a methodoleg	7
3. Canfyddiadau: Nodi anghenion y plant a'r bobl ifanc ag AAA	8
4. Casgliadau.....	16
5. Llyfryddiaeth.....	20

Talfyriadau ac Acronymau

ADY	Anghenion dysgu ychwanegol
CyADY	Cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol
ADGOS	Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
CDU	Cynllun datblygu unigol
CAU	Cynllun addysg unigol
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CCP	Cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person
UPG	Yr Uned Pobl a Gwaith
SSA	Systemau sicrhau ansawdd
AAA	Anghenion addysgol arbennig
CyAAA	Cydlynnydd anghenion addysgol arbennig
TAAAC	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru (defnyddiwyd tan fis Mai 2011)
LIC	Llywodraeth Cymru (defnyddiwyd o fis Mai 2011)

1. Cyflwyniad

Prosiectau peilot ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

- 1.1. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Yn ôl adolygiadau polisi mae gwendidau yn bresennol yn y broses bresennol ar gyfer nodi a diwallu anghenion addysgol arbennig (Estyn 2003; CCC, 2004, 2006).
- 1.2. Sefydlwyd y prosiectau peilot ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn 2009 i ddatblygu a phrofi dulliau amgen i'r fframwaith AAA presennol. Ymhlith yr agweddau a oedd yn cael eu peilota roedd cynllun datblygu unigol (CDU), sy'n nodi anghenion dysgu plentyn neu berson ifanc a'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd er mwyn eu cynorthwyo; system sicrhau ansawdd (SSA), sy'n monitro deilliannau ac yn galluogi'r broses o werthuso darpariaeth ADY; a datblygiadau yn ymwneud â rolau a chyfrifoldebau CyAAA/CyADY (Cydlynnydd AAA/cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol) mewn lleoliadau dysgu.
- 1.3. Dechreuodd cyfnod olaf y prosiectau peilot ym mis Medi 2012. Y nod oedd darparu cyfnod treialu estynedig ar gyfer dull 'system gyfan'. Roedd hwn yn cynnwys defnyddio'r CDU a'r SSA ar draws yr ystod oedran 0-25, gan weithio mewn lleoliadau cyn-ysgol, ar draws clystyrau ysgolion lleol ac mewn sefydliadau addysg bellach.

Yr astudiaeth ymchwil hon

- 1.4. Diben cyffredinol yr astudiaeth hon oedd asesu effeithiolrwydd y broses CDU yng nghyd-destun y dull "system gyfan". Cafodd yr astudiaeth ei strwythuro fel darn o ymchwil, yn hytrach na gwerthusiad o'r prosiectau peilot a'r amcanion penodol oedd:

- ymchwilio i ddylanwad cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person (CCP), y broses CDU a SSA ar y gwaith o nodi anghenion plant a phobl ifanc ag AAA, mewn perthynas â chynllunio integredig;
- cymharu a chyferbynnu profiadau cynllunio gwahanol yr holl randdeiliaid perthnasol wrth iddynt weithredu CCP, y fersiwn papur o'r CDU, yr offeryn CDU ar y we ac SSA gyda'r system bresennol;
- asesu i ba raddau y gwnaeth elfennau gwahanol y system (gan gynnwys yr SSA, CDU, CCP a rôl y cydlynnydd cymorth) gydweithio a sut gwnaeth y cynllunio aml-asiantaeth hwyluso'r broses hon; a
- nodi'r goblygiadau ehangach sydd ynghlwm wrth weithredu elfennau'r broses ddiwygio (e.e. effaith bosibl Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) a defnyddio gwasanaethau datrys anghydfod).

2. Dull a methodoleg

Cyflwyniad

2.1. Roedd hon yn astudiaeth ymchwil ansoddol yn bennaf, sy'n canolbwyntio ar bedair ffynhonnell allweddol o ddata:

- ymchwil gydag 16 o leoliadau dysgu ac un gwasanaeth (prosiect ISCAN) a oedd yn rhan o'r peilot (gan gynnwys cyfweiliadau â chyfanswm o 25 o weithwyr proffesiynol);
- ymatebion gan un teulu ar bymtheg;
- cyfweiliadau gyda naw rhanddeiliad allweddol o lywodraeth leol a chanolog, Gyrfa Cymru a'r sector gwirfoddol; ac
- arolwg desg o hunanwerthusiadau'r prosiectau peilot.

2.2. Er mwyn amlygu'r prif nodweddion tebyg a gwahanol o ran profiadau a safbwyntiau'r rhanddeiliaid, mae'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng ymatebion gan: "gweithwyr proffesiynol" fel athrawon ysgol, CyAAA a gweithwyr iechyd proffesiynol, a "rhieni a gofalwyr". O fewn y ddau grŵp eang hyn, er mwyn dangos cydbwysedd barn ar fater arbennig, mae'r adroddiad yn defnyddio confensiwn Estyn (2011) i nodi pa gyfran o'r cyfranogwyr ymchwil sy'n gwneud pwynt arbennig.

2.3. Wrth ddehongli ymatebion, mae'n bwysig cofio nad yw pob rhanddeiliad wedi gwneud sylwadau ar fater arbennig a drafodwyd yn yr adroddiad. Felly, hyd yn oed os, er enghraifft, bydd yr adroddiad yn nodi bod "lleiafrif" o'r bobl a gyfwelwyd wedi gwneud pwynt penodol (fel sy'n digwydd yn aml, oherwydd prin iawn oedd yr adegau pan fyddai mwy na 12 o'r 25 o bobl a gyfwelwyd yn gwneud pwynt penodol), nid yw hyn yn golygu bod y "mwyafri" wedi anghytuno.

3. Canfyddiadau: Nodi anghenion y plant a'r bobl ifanc ag AAA

Cymharu a chyferbynnu prosesau presennol a'r dull CCP a'r prosesau CDU

- 3.1. O dan drefniadau presennol, mae'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar blentyn neu berson ifanc ag anghenion addysgol arbennig fel arfer yn cael ei ddarparu drwy wahaniaethu'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth, cymorth mwy penodol fel Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, neu Ddatganiad (statudol) Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).
- 3.2. Fel y mae tabl 1 yn ei ddangos, ceir rhai gwahaniaethau pwysig o ran pwyslais yn y prosesau CCP a CDU o gymharu ag asesu ar gyfer Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu asesiad statudol. Yn arbennig, mae'r dull CCP yn diffinio anghenion plentyn mewn perthynas â'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac ar eu cyfer nhw. Mae hefyd yn canolbwyntio ar gryfderau plentyn neu berson ifanc, yn hytrach na'u gwendidau. Yn ogystal, fel y mae'r tabl yn ei ddangos, mae'r dull CCP a'r CDU yn ymestyn y ffocws i gynnwys, o bosibl, amrywiaeth ehangach o anghenion a chymorth na'r prosesau a'r cynlluniau presennol (sy'n canolbwyntio ar anghenion addysgol unigol yn unig).
- 3.3. Serch hynny, fel y mae Tabl 1 hefyd yn ei ddangos, mae gorgyffwrdd mawr o hyd rhwng y prosesau a'r cynlluniau presennol a'r broses CCP a'r CDU. Er enghraifft, maent oll yn rhannu'r un nod: byddai diwallu anghenion plentyn/person ifanc a'r cymorth sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â'r anhawster dysgu ac adolygu effeithiolrwydd y cymorth hwnnw yn nodwedd ym mhob un o'r prosesau a'r cynlluniau.

Tabl 1. Cymharu CCP a'r CDU gyda'r prosesau asesu a chynllunio presennol

Proses Elfennau	Cynllunio datblygiad unigolion	Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Asesu statudol
Cynllun	Cynllun Datblygu Unigol	Cynllun Addysg Unigol	Datganiad AAA
Diben y broses	Nodi: beth sy'n bwysig i'r plentyn/person ifanc; eu cryfderau yn ogystal â'r heriau ¹ a wynebant; a'r ffordd orau o roi cymorth iddynt (beth sy'n bwysig iddyn nhw)	Nodi camau gweithredu ychwanegol neu wahanol er mwyn galluogi'r plentyn/person ifanc i ddysgu'n fwy effeithiol	Nodi anawsterau dysgu'r plentyn/person ifanc ac unrhyw anghenion nad ydynt yn ymwneud ag addysg ² a'r ddarpariaeth sydd ei hangen er mwyn diwallu AAA y plentyn/person ifanc
Adolygu'r cymorth presennol	Beth sy'n gweithio neu ddim yn gweithio? (byddai hyn yn cynnwys adolygu strategaethau ac ymyriadau)	Adolygu'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio a'r ffyrdd y gellid eu datblygu	Adolygu'r camau a gymerwyd i roi cymorth i'r plentyn/person ifanc
Deilliant a ddymunwyd	Sylweddoli beth sy'n bwysig i'r plentyn/person ifanc ac ar eu cyfer (dylai hyn gynnwys targedau addysgol a/neu ddatblygiadol)	Y targedau addysgol a/neu ddatblygiadol byr dymor a nodwyd gan y plentyn/person ifanc neu ar eu cyfer	Amcanion tymor hwy y mae'r ddarpariaeth ychwanegol yn ceisio eu diwallu.

Y broses CCP a CDU

3.4. Disgrifiwyd CCP fel proses sy'n darparu gwybodaeth fwy cyfoethog am y plentyn/person ifanc a'r hyn sy'n bwysig i'r/ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Yn sgîl hyn defnyddiwyd cwestiynau sy'n canolbwyntio ar gryfderau yn hytrach na gwendidau a chafwyd mewnbyn gan nifer o bobl sy'n adnabod y plentyn.

¹ Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, nodi yr hyn sy'n gweithio neu nad yw'n gweithio.

² Mae Rhan 2 o'r datganiad yn disgrifio holl anawsterau dysgu'r plentyn a nodwyd yn ystod yr asesiad statudol a sut mae'r plentyn yn gweithio ar hyn o bryd; mae Rhan 5 yn disgrifio unrhyw anghenion nad ydynt yn ymwneud ag addysg.

- 3.5. Gwnaeth pob lleoliad gydnabod pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc a rhieni a gofawyr yn y broses. Teimlwyd bod y broses CCP a CDU yn datblygu ac yn ymestyn arfer presennol ac, mewn rhai achosion, cymerwyd camau i gynnwys plant a phobl ifanc oedd heb gymryd rhan o'r blaen. Fodd bynnag, roedd maint, natur ac effaith y cyfranogiad gan blant a phobl ifanc yn y broses CCP a CDU yn gymysg ar draws yr ardaloedd peilot. Yn ôl rhai lleoliadau roedd yn anodd cynnwys plant a phobl ifanc mewn modd ystyrlon, yn arbennig plant ifanc a/neu rhai ag anghenion mwy cymhleth, mewn cyfarfodydd adolygu CDU (yn wahanol i rannau eraill o'r broses).
- 3.6. Teimlwyd bod gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn bwysig wrth annog a galluogi rhieni a gofawyr i gymryd rhan yn y broses. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd y patrwm o ran cyfranogiad rhieni a gofawyr mewn cyfarfodydd CCP a CDU yn wahanol i'r cyfranogiad blaenorol – roedd yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd o dan y system bresennol. Hynny yw, heblaw rhai eithriadau, os nad oeddent yn cymryd rhan yn y system bresennol nid oeddent yn cymryd rhan yn y dull CCP a'r broses CDU. Mae diffyg ymrwymiad neu gyfranogiad gan rieni yn broblem hirsefydlog yn ôl gweithwyr proffesiynol. Nodwyd nifer o resymau am hyn, gan gynnwys:
- y canfyddiad bod rhai rhieni neu ofalwyr yn teimlo mai'r ysgol a/neu'r gwasanaethau eraill sy'n gyfrifol am helpu eu plentyn ac felly nid oes angen iddynt fod ynghlwm wrth y broses; a
 - bod rhieni a gofawyr, yn enwedig y rhai sydd â sgiliau llythrennedd gwael, yn ofni cymryd rhan yn y broses.³
- 3.7. Yn yr un modd â'r rhieni a gofawyr, roedd y patrwm o ran cyfranogiad gweithwyr proffesiynol mewn adolygiadau CCP a CDU ar y cyfan yn adlewyrchu eu cyfranogiad mewn prosesau presennol. Mae dadansoddiad o gyfranogiad yn nodi⁴:

³ Mae dulliau o gefnogi rhieni neu ofalwyr sydd o bosibl ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhan bwysig o'r hyfforddiant.

⁴ Mae Tabl 2 yn seiliedig ar adroddiadau hunanwerthuso'r cynlluniau peilot ac mae gwahaniaethau yn y manylion a'r ffordd y cafodd presenoldeb ei gofnodi yn golygu ei bod yn anodd gwneud

- lefelau cymharol uchel o gyfranogiad gan staff sy'n gweithio mewn ysgolion a staff/gwasanaethau awdurdodau lleol, fel athrawon ymgynghorol a seicolegwyr addysg;
- darlun cymysg o gyfranogiad gan staff/gwasanaethau iechyd gyda lefelau cymharol uchel o gyfranogiad gan ymgyrchwyr iechyd ac, yn gyffredinol, lefelau cymysg neu is o gyfranogiad gan weithwyr eraill fel pediatregwyr, therapyddion iaith a lleferydd a therapyddion galwedigaethol; a
- lefel isel o gyfranogiad yn gyffredinol gan weithwyr cymdeithasol (ac eithrio gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio mewn ysgolion).

3.8. Nododd yr ardaloedd peilot amrywiaeth o resymau dros beidio â mynychu cyfarfodydd. Ymhlith y rhain roedd: diffyg amser a nifer y cyfarfodydd yr oedd angen i weithwyr proffesiynol eu mynychu; y canfyddiad mai cyfarfodydd "addysg" oedd y cyfarfodydd i adolygu CDU; a phobl allweddol yn gadael neu'n newid swyddi.

3.9. Yn gyffredinol, cafwyd ymateb cadarnhaol i CCP gan y rhieni a'r gofalwyr, yr ysgolion a'r gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn y broses. Teimlwyd bod y broses yn fwy anffurfiol na phrosesau eraill, fel asesiadau ac adolygiadau statudol. Mewn nifer bach o achosion, disgrifiwyd y broses fel cyfle i'r rhieni leisio'u barn, ac roedd hyn yn wahanol i sut roeddent wedi teimlo o'r blaen. Fodd bynnag, dywedodd hanner y rhieni y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth bethau negyddol am agweddau o CCP a CDU. Ymhlith y pryderon roedd:

- y ffordd y cafodd yr adolygiad ei drefnu a'r ffyrdd y gofynnwyd iddynt hwy a'u plentyn gyfrannu;

cymariaethau uniongyrchol rhwng cyfranogiad y gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol a rhwng yr awdurdodau lleol. At hynny, mae'n bwysig cofio y byddai nifer y gweithwyr proffesiynol a'r math o weithwyr proffesiynol y byddai disgwyl iddynt fynychu'r cyfarfodydd yn dibynnu ar anghenion pob plentyn unigol.

- newid o ddull cynllunio sy'n seiliedig ar "wendidau " i un sy'n seiliedig ar "gryfderau"; ac
- anfodlonrwydd gyda deilliannau'r broses.

3.10. Yn ôl gweithwyr proffesiynol roedd y pwyslais ar gydweithio yn bwysig iawn. Teimlwyd bod hyn yn cynyddu ymddiriedaeth a hyder rhieni a gofawyr yn y broses. Serch hynny, nododd ychydig o weithwyr proffesiynol a rhieni fod rhieni a gofawyr sy'n gyfarwydd â "brwydro" i gael y cymorth sydd ei angen ar eu plentyn yn ei chael yn anodd newid i weithio'n gydweithredol.

Effaith ar gynllunio i ddiwallu anghenion

3.11. Roedd barn gweithwyr proffesiynol a rhieni yn amrywio ynghylch pa mor drylwyr roedd CCP a CDU o gymharu â'r prosesau presennol ar gyfer asesu a chynllunio ar gyfer anghenion. Er enghraifft, er bod hanner y rhieni yn croesawu'r newid i ddull sy'n seiliedig ar gryfderau, roedd y newid hwnnw yn peri pryder i leiafrif o rieni. Yn aml, ymddengys fod hyn yn adlewyrchu diffyg hyder y byddai anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu heblaw bod y broses yn canolbwyntio ar eu gwendidau. Teimlai rhai rhieni hefyd fod y mewnwelediad yn sgîl diagnosis ac asesiad manwl o anghenion, a gynigir gan asesiad statudol, yn cael ei golli.

3.12. Er bod gweithwyr proffesiynol yn teimlo bod eu dealltwriaeth well o'r plentyn yn helpu gyda chyfathrebu a chymorth, dim ond ychydig o enghreifftiau oedd o newidiadau mwy sylfaenol i'r ymyriadau a gyflawnwyd. Felly, daeth ychydig o weithwyr proffesiynol a hanner y rhieni i'r casgliad er bod y profiad yn fwy cadarnhaol yn gyffredinol (fel y trafodwn ymhellach isod), nid oedd deilliannau'r broses yn wahanol iawn i'r hyn a ddisgwyliwyd wrth ddilyn y dull presennol.

3.13. Mewn rhai achosion, teimlwyd bod CCP a CDU wedi helpu rhieni a gofawyr i ddeall yr hyn y gallent hwy (yn annibynnol ar yr ysgol) ei wneud yn wahanol i helpu eu plentyn.

3.14. Yn gyffredinol, teimlwyd bod cyfranogiad amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, ochr yn ochr â rhieni a gofalwyr, yn gwella'r broses gynllunio oherwydd gellid cytuno ar gamau gweithredu yn ystod y cyfarfod adolygu CDU. Serch hynny, roedd pryder ymhlith lleiafrif o weithwyr proffesiynol nad yw'r dull yma bob tro yn arwain at osod targedau. Weithiau roedd y targedau yn cyfeirio at gamau gweithredu (yr hyn yr oedd angen ei wneud) yn hytrach na'r deilliant arfaethedig. Efallai bod angen targedau ar gyfer camau gweithredu, ond mae'r camau gweithredu yn ffordd o gyflawni'r deilliant a ddymunwyd, a dylai'r targedau gynnwys y deilliannau hyn.

Technoleg gwybodaeth

3.15. Yn gyffredinol, croesawyd dimensiwn ar-lein y CDU mewn egwyddor, ond cafwyd problemau technegol yn ymarferol. Teimlai rhai rhieni yn rhwystredig oherwydd dywedwyd y byddai'r broses ar-lein ond nid oedd modd darparu hyn mewn rhai ardaloedd. Roedd rhai pryderon hefyd ynghylch sut y byddai rhieni heb sgiliau llythrennedd digidol cryf a/neu fynediad cyfyngedig i galedwedd, fel cyfrifiaduron, yn ymdopi ac a fyddai'n rhaid i ysgolion fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i CDU ar-lein.

Effaith y dull CCP a'r broses CDU ar faich gwaith pobl broffesiynol

3.16. Teimlai ychydig yn llai na hanner y gweithwyr proffesiynol fod CCP a'r broses CDU, er eu bod yn systemau gwerth chweil, yn cymryd mwy o amser o lawer i'w cwblhau na'r prosesau presennol. Roedd llawer yn poeni ynghylch sut byddent yn gallu cynyddu'r broses i gynnwys mwy o blant a phobl ifanc. Teimlai llawer o CydAAA, yn arbennig, mai dim ond i CydAAA ag amser digonol y tu allan i'r dosbarth a chymorth gweinyddol y byddai defnyddio dull o'r fath yn ehangach yn ymarferol.

3.17. Ar y cyfan, roedd rhywfaint o dystiolaeth y gellid cwblhau'r broses yn gyflymach ar ôl iddi gael ei sefydlu. Serch hynny, teimlwyd bod natur y broses, gyda'i phwyslais ar fod yn anffurfiol a chynnal deialog, yn golygu y

byddai'n anodd lleihau'r amser sydd ei angen ar gyfer cyfarfod adolygu i lai nag awr.

Cynllunio paralel neu ddilyniannol

- 3.18. Nid oes llawer o enghreifftiau o'r CDU yn disodli cynlluniau neu ddogfennau eraill (ar wahân i Ddatganiadau AAA) ar hyn o bryd. Serch hynny, mae rhai awdurdodau lleol yn ystyried symleiddio prosesau ac, yn hanfodol, gwaith papur er mwyn defnyddio CDU yn lle'r cynlluniau a dogfennau addysg eraill y mae'n rhaid i ysgolion (a chyrff eraill) eu paratoi.
- 3.19. Mae mwy o enghreifftiau o CCP a CDU yn llywio (ond nid yn disodli) cynlluniau eraill, fodd bynnag, nodwyd bod rhai gwasanaethau, yn arbennig gwasanaethau cymdeithasol, methu newid yr adroddiadau a gynhyrchir ganddynt (oherwydd gofynion statudol) ac yn anfodlon cyfuno cyfarfodydd cynllunio a allai lywio'r broses o gynhyrchu mwy nag un cynllun neu adroddiad.

Integreiddio elfennau gwahanol y cynlluniau peilot

- 3.20. Nid oes llawer o dystiolaeth o weithredu ar sail "system gyfan". Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith treialu ar gyfer CDU a SSA mewn ysgolion ac yn aml roedd hyd yn oed y gwaith treialu o fewn clystyrau o ysgolion (yn Nhorfaen, Sir Gaerfyrddin, Caerdydd a Chasnewydd) yn gyfyngedig. Mae hyn yn cyfyngu ar y casgliadau y gellid dod iddynt ynghylch effeithiolrwydd a gweithredu ar draws system.

Hyder rhieni a gofalwyr yn y broses

- 3.21. Mae gan rieni a gofalwyr bryderon sylweddol ynghylch statws cyfreithiol CDU, a phu'n a fyddant yn colli'r diogelwch cyfreithiol a ddarperir gan Ddatganiad AAA. Mae hyn yn arwydd o ddiffyg hyder yn y broses, ac roedd eu profiadau blaenorol yn aml yn dylanwadu ar hyn. Er enghraifft, fel y dywedodd un

gweithiwr proffesiynol, mae'n "anoddach pan maent wedi dod i arfer â'r hen system, [ac] mae ganddynt Ddatganiad" (maent eisiau ei gadw).

Natur yr anghydfod a gwrthdaro

3.22. Mae amrywiaeth o resymau dros wrthdaro rhwng teulu a'r ysgol a/neu awdurdod lleol. Gall CCP a CDU fynd i'r afael â llawer o'r materion hyn os cânt eu rheoli mewn ffordd sensitif a medrus. Fodd bynnag, does dim byd ynghlwm wrth y broses i sicrhau hyn. Mae rhai o'r rhesymau dros anghytuno, fel camddeall y broses, yn haws i'w datrys drwy drafodaethau cydweithredol rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, fel y mae'r dull CCP a'r broses CDU yn ceisio meithrin, na phroblemau eraill, fel methiant yn y ddarpariaeth.

Datblygu'r gweithlu

3.23. Mae'r dulliau a gafodd eu peilota yn gofyn am:

- gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau ac offer newydd;
- amrywiaeth o sgiliau cymdeithasol ac emosiynol i gynnwys rhanddeiliaid a rheoli a hwyluso cyfarfodydd adolygu; a
- newid o ran diwylliant ac agwedd (mewn rhai achosion).

3.24. Mae'r hyfforddiant presennol ar gyfer CCP a sefydlu CDU wedi canolbwyntio ar y cyntaf a'r trydydd o'r rhain. Fodd bynnag, bu llai o ffocws ar yr ail. Mae'r dystiolaeth o'r cyfnod peilota yn dangos nad yw'r holl weithwyr proffesiynol a oedd ynghlwm wrth y broses yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau hyn.

4. Casgliadau

Profiadau rhanddeiliaid gwahanol

- 4.1. Croesawyd y dull CCP gan ysgolion, y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol eraill a oedd yn rhan o'r broses (fel seicolegwyr addysg) a llawer o deuluoedd, ond nid pob teulu. Mae'r effaith ar brofiadau rhieni a gofalwyr yn hanfodol, gan mai gwendid allweddol y system bresennol, yn ôl pob sôn, yw'r ffaith bod llawer o bobl yn teimlo bod y broses yn un anodd.
- 4.2. O'r gweithwyr proffesiynol a wnaeth sylwadau ar hyn, teimlai'r mwyafrif fod y dull CCP, er ei fod yn werthfawr, yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau na'r trefniadau presennol. At hynny, bu cyfranogiad y gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion, neu'n rhan o wasanaethau addysg yr awdurdod lleol, yn gymysg.
- 4.3. Mae ysgolion yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r SSA a'r CDU ar-lein. Fodd bynnag, bu'r broses o weithredu'r ddau yn gyfyngedig, gan gyfyngu ar y casgliadau y gellid dod iddynt ynghylch profiadau rhanddeiliaid ohonynt.

Dylanwad CCP, y broses CDU a SSA ar y gwaith o nodi anghenion plant a phobl ifanc ag AAA

- 4.4. Yn gyffredinol, mae ysgolion, rhieni a gofalwyr yn teimlo bod y dull CCP yn cynnig gwybodaeth fwy cyfoethog am y plentyn a dealltwriaeth well o'u hanghenion na phrosesau presennol. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at nodi anghenion na fyddent wedi'u darganfod fel arall neu na fyddent wedi'u deall yn llawn.
- 4.5. Serch hynny, mae gan rieni a rhai gweithwyr proffesiynol bryderon fod y mewnwelediad a gynigir gan ddiagnosis ac asesiad mewnol o anghenion wedi cael ei golli yn sgîl y newid pwyslais. Yn arbennig, mae rhai yn poeni bod ffocws y broses wedi newid gormod o fod yn broses sy'n seiliedig ar wendidau

i un sy'n seiliedig ar gryfderau, ac o anghenion addysgol arbennig y plentyn i'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn ac ar gyfer y plentyn hwnnw.

- 4.6. Teimlir bod y CDU yn ffordd effeithiol o gofnodi'r mewnwleddiad a gynhyrchir gan y dull CCP a theimlir, yn gyffredinol, bod y cynllun gweithredu yn fwy eglur o lawer na chynlluniau presennol. Yn sgîl hyn, gwelwyd newidiadau i arferion ysgolion sy'n bwysig iawn i blant a phobl ifanc, er eu bod yn gymharol fach eu maint.

Integreiddio elfennau gwahanol fel CCP, y CDU, SSA a gwasanaethau cymorth partneriaethau rhieni

- 4.7. Mae integreiddio CCP a CDU wedi gweithio'n dda, ond mae'r gwaith o'u hintegreiddio gydag elfennau eraill y cynlluniau peilot, fel SSA, wedi bod yn wan hyd yma. At hynny, er bod gweithwyr proffesiynol yn cydnabod y potensial sydd ynghlwm wrth ddefnyddio un broses gynllunio sy'n canolbwyntio ar y person i gynhyrchu nifer o gynlluniau, bu'n anodd gwireddu'r weledigaeth yn ymarferol ac mae llawer o gynllunio paralel a dilyniannol yn bodoli o hyd.

Goblygiadau ehangach y diwygiad

- 4.8. Mae effaith gadarnhaol CCP a CDU ar brofiadau rhieni a gofalwyr yn bwysig oherwydd roedd yr angen i wella'u profiadau yn rheswm allweddol dros newid y fframwaith statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae ysgolion yn teimlo bod y broses fwy cydweithredol ac anffurfiol yn cynnig y potensial i feithrin ymddiriedaeth a hyder rhieni a gofalwyr, gan leihau lefel ac amllder yr achosion o anghydfod ac anghytuno. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddyfarnu a fydd hyn yn digwydd yn ymarferol. Mae pryder eang ymhlith rhieni a gofalwyr hefyd y byddant yn colli'r diogelwch cyfreithiol sy'n gysylltiedig â Datganiad AAA ar hyn o bryd oherwydd y diwygiadau arfaethedig.
- 4.9. Hyd yma, dim ond gyda nifer cymharol fach o blant a phobl ifanc y mae'r CDU wedi cael ei dreialu. Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn teimlo bod y broses

yn cymryd mwy o amser na phrosesau eraill sy'n bodoli eisoes. Hyd yn oed os ydynt yn teimlo bod y broses yn werth chweil, maent yn poeni ynghylch sut y byddai CydAAA heb unrhyw amser, neu ychydig bach o amser, y tu allan i'r dosbarth yn gallu rheoli'r broses gyda mwy o blant a phobl ifanc. Gallai hyn hefyd olygu bod rhaid i CydAAA ymgymryd â rôl strategol mewn perthynas â darpariaeth ADY/AAA mewn ysgolion.

Arsylwadau

- 4.10. Ac eithrio'r amser sydd ei angen ar gyfer CCP, nid yw'r problemau a'r heriau a amlygwyd yn yr ymchwil yn gynhenid i'r dull neu'r modelau. Mae'r dull CCP, ac offer fel CDU, yn ddigon hyblyg i'w newid a'u haddasu i fodloni gofynion amrywiol.
- 4.11. Fodd bynnag, wrth wraidd y diwygiadau mae tensiwn rhwng y dyhead i bennu'r hyn y dylid ei wneud a sut y dylid ei wneud er mwyn sicrhau ansawdd a chynyddu cysondeb, a'r angen i rymuso ymarferwyr a rhoi'r hyblygrwydd iddynt ymateb i anghenion a diddordebau unigolion. Felly, bydd llawer yn dibynnu ar sgiliau, agweddau ac ymrwymiad y gweithlu addysg wrth iddynt weithredu'r prosesau newydd. Mae'r risgiau hefyd yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod dulliau gweithredu cryf ar waith.
- 4.12. Mae tystiolaeth o'r cynlluniau peilot ADY yn nodi bod modelau a dulliau'r peilot yn ceisio ymdrin â gwendidau allweddol y system bresennol, ond nid ydynt yn "fwled arian". Mae'r dystiolaeth yn dangos er bod posibilrwydd i'r offer hyn fod yn effeithiol iawn, nid oes unrhyw sicrwydd y byddant yn effeithiol. Gall cyd-destun, er enghraifft, ddylanwadu ar ddisgwyliadau a chyfranogiad rhanddeiliaid; pa mor rhwydd y gellid mabwysiadu systemau newydd; a'r adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion a nodwyd drwy'r dull CCP. Golyga hyn, er enghraifft, fod CCP a CDU wedi gweithio orau pan oedd rhieni, gofawyr a gweithwyr proffesiynol yn rhan weithgar o'r prosesau presennol.

4.13. Yn olaf, mae'n bwysig cofio bod llawer o'r dystiolaeth wedi dod o'r lleoliadau dysgu a ddewisodd gymryd rhan yn y prosiect peilot. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan, yn gyffredinol roeddent yn gweithio gyda nifer bach o blant a phobl ifanc (yn y peilot) ac roeddent yn elwa ar fwy o gymorth nag y byddai ar gael fel arfer os, a phryd, y caiff modelau'r cynllun peilot eu cyflwyno i bob lleoliad a grwpiau mwy o ddysgwyr. Felly, dylid trin canfyddiadau o ran effeithiolrwydd ac effaith yn ofalus.

5. Llyfryddiaeth

Estyn (2003) *Cymorth i Blant gydag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg gan Estyn*. Ar gael yn: http://www.estyn.co.uk/publications/Support_children_SEN.pdf

Estyn (2011) *Estyn, Canllaw ysgrifennu – Mehefin 2011*. Ar gael yn <http://www.estyn.gov.uk/download/.../6852.3/estyn-writing-guide-june-2011/>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004) *Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig Rhan 1: Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar, Tachwedd 2004*. Ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/cy/N000000000000000000000000000026476.pdf>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006) *Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau), Mai 2006*. Ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/cy/N000000000000000000000000000044329.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar gael ar-lein yn <http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf>